Rhif: **WG21191**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Bil Addysg Uwch (Cymru)

Ymgynghoriad technegol

Dyddiad cyhoeddi: **Ebrill 2014**

# Bil Addysg Uwch (Cymru)

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Sefydliadau addysg uwch; sefydliadau addysg bellach; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; sefydliadau'r trydydd sector a chyrff cynrychiadol. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad technoleg ar *Fil Addysg Uwch (Cymru)*. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Tîm Deddfwriaeth<br>Yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhadbost NAT 8910<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3BR<br><br>Ffôn: 029 2082 6585<br>e-bost: highereducationwalesbill@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Bil Addysg Uwch (Cymru)* – ymgynghoriad technegol<br>www.cymru.gov.uk/consultations/education/higher-education-wales-bill-technical-consultation/?skip=1&lang=cy |

ISBN digidol 978 1 4734 1046 6
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21191

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Crynodeb o’r ymatebion** | **2** |
| **System reoleiddio ddiwygiedig** | **3** |
| **Rheolaeth ar ffioedd a mynediad teg** | **5** |
| **Asesu ansawdd** | **11** |
| **Sicrwydd ariannol a llywodraethu** | **14** |
| **Materion trawsbynciol** | **21** |
| **Rhestr o’r ymatebwyr** | **23** |

# Cyflwyniad

Roedd Papur Gwyn Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012 yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch diwygio fframwaith rheoleiddio presennol addysg uwch. Mewn Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 6 Mawrth 2013, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai ei swyddogion yn dadansoddi ac yn datblygu ymhellach y cynigion ar gyfer addysg uwch ac y byddai'n cyflwyno darpariaethau yn ymwneud â diwygio addysg uwch drwy ddeddfwriaeth yn hwyrach yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Cyhoeddwyd **Bil Addysg Uwch (Cymru): Ymgynghoriad Technegol** ar 20 Mai 2013. Roedd dau bwrpas i'r ddogfen:

- cyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad **Papur Gwyn Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)**; ac
- ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid ar fanylion technegol cynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad technegol yn gofyn am farn ynglŷn â sut y dylai'r system reoleiddio ddiwygiedig weithredu o fewn y fframwaith arfaethedig. Roedd yn cynnwys y meysydd a ganlyn:

- cyflwyno dull diwygiedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr;
- trefniadau ar gyfer ei gwneud yn orfodol rhoi cap ar ffioedd dysgu a chynlluniau ffioedd;
- asesiad o ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch; a
- sicrwydd ariannol a llywodraethu.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 29 Gorffennaf 2013. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Gellir gweld copïau o'r ymatebion a ddaeth i law, ar wahân i'r rhai cyfrinachol, yn eu fformat a'u hiaith wreiddiol yn

http://wales.gov.uk/consultations/education/higher-education-wales-bill-technical-consultation/?skip=1&lang=cy

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad am eu cyfraniadau.

## Crynodeb o’r ymatebion

Roedd yr ymgynghoriad technegol yn gofyn am ymatebion i 25 o gwestiynau. Derbyniwyd cyfanswm o 21 o ymatebion ac mae’r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o’r rhai a ymatebodd:

| | |
|---|---|
| Cyrff a noddir gan y Llywodraeth | 3 |
| Cyrff cynrychiadol | 4 |
| Undebau | 3 |
| Sefydliadau addysg uwch | 9 |
| Sefydliadau addysg bellach | - |
| Unigolion | 1 |
| Arall | 1 |
| **Cyfanswm** | **21** |

## System reoleiddio ddiwygiedig

**Cwestiwn 1: Yng ngoleuni'r rôl reoleiddio fwy y bwriedir ei rhoi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a ddylid newid enw'r Cyngor?**

Roedd y rhan fwyaf o’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn hwn yn credu y dylid cadw enw presennol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Roedd y rhesymau a roddwyd dros beidio â bod o blaid newidiadau i enw’r Cyngor yn cynnwys y canlynol:

- y manteision amlwg sydd ynghlwm wrth gadw hunaniaeth brand, enw da a phroffil cyhoeddus presennol CCAUC;
- y perygl o achosi dryswch i fyfyrwyr, sefydliadau a rhanddeiliaid;
- colli cysondeb â threfniadau mewn rhannau eraill o’r Deyrnas Unedig;
- y costau sy’n gysylltiedig â newid o’r fath yn fwy nag unrhyw fanteision.

Dywedodd rhai o’r ymatebwyr nad oedd ganddynt deimladau cryf, ond y dylid ystyried y costau sy’n gysylltiedig â gwneud newidiadau ac y dylai costau o’r fath fod yn ffactor pan fo penderfyniadau’n cael eu gwneud. Dim ond un o’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn hwn oedd o blaid newidiadau, ond mae’n ymhelaethu ac yn cyfeirio at bryder ynglŷn â goblygiadau ariannol posibl newid yr enw.

**Cwestiwn 2: Rydym yn cydnabod bod yna amrywiaeth o drefniadau breinio eisoes yn bodoli yng Nghymru, a bod y rhain wedi'u datblygu o dan y system gyllid a oedd gennym cyn i'r trefniadau newydd o ran ffioedd a chymorth i fyfyrwyr gael eu cyflwyno. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich barn ynghylch sut dylid delio â threfniadau breinio o dan y fframwaith rheoleiddio newydd. Yn benodol:**

(a) A fydd y cynnig i wneud y sefydliad neu'r darparwr sy'n breinio'r cwrs yn gyfrifol naill ai am wneud cais am gynllun ffioedd neu am wneud cais i ddynodi ei gyrsiau fesul achos yn gweithio'n ymarferol?
(b) A allai'r cynnig hwn greu problemau cyflenwi? Os felly, nodwch y problemau.
(c) A oes unrhyw ddulliau gweithredu eraill posibl yr ydych am iddynt gael eu hystyried?

Roedd y rhan fwyaf o’r sefydliadau addysg uwch a ymatebodd i’r cwestiwn hwn yn credu bod y cynnig i wneud y breiniwr yn gyfrifol naill ai am wneud cais am gynllun ffioedd neu am wneud cais i ddynodi ei gyrsiau fesul achos yn gydnaws â’r hyn sy’n digwydd ar hyn o bryd. Er hyn mynegwyd rhywfaint o bryder ynglŷn â gallu’r sefydliad sy’n breinio i ddylanwadu’n uniongyrchol ar drefniadau darparu’r sawl sydd wedi’i freinio. Roedd ymateb y sector addysg bellach hefyd yn cefnogi’r dull gweithredu arfaethedig yng nghyswllt cyrsiau addysg uwch amser llawn.

Roedd manteision amlwg y dull gweithredu arfaethedig yn cynnwys:

- galluogi myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau breiniol sy'n cael eu darparu gan sefydliadau bach i gael budd o ymrwymiadau cynllun ffioedd y breiniwr;
- ni fyddai'n atal sefydliadau addysg bellach â darpariaeth freiniol rhag gwneud cais am gynllun ffioedd drwy eu hawl eu hunain; a
- byddai disgwyl i'r sefydliad sydd wedi'i freinio, yn ogystal â'r breiniwr, gael statws elusennol yn helpu i sicrhau nad yw'r cymhorthdal ariannol sy'n deillio o grantiau ffioedd dysgu a benthyciadau Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio er elw i gyfranddeiliaid.

Roedd anfanteision posibl y dull gweithredu arfaethedig yn cynnwys:

- cymhlethdod ymdrin â threfniadau breinio trawsffiniol;
- y posibilrwydd y bydd sefydliad wedi'i freinio sydd â threfniadau â nifer o sefydliadau partner yn gorfod ymateb i ofynion nifer o gynlluniau ffioedd; ac
- i'r gwrthwyneb, sefyllfa lle mae breiniwr sydd â nifer o drefniadau breinio yn methu â gwneud llawer i sicrhau bod y sefydliadau amrywiol sydd wedi'u breinio yn gweithredu.

Dim ond un dull gweithredu amgen a gynigiwyd (gan un ymatebydd); ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n cael eu breinio wneud cais am gynllun ffioedd ar gyfer eu cyrsiau breiniol fel eu bod yn dilyn hynny'n cael eu rheoleiddio'n uniongyrchol gan CCAUC yn hytrach na'r breiniwr.

Roedd y materion ychwanegol a godwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys:

- yr angen i sicrhau nad yw'r trefniadau rheoleiddio newydd yn atal darpariaeth addysg uwch rhag cael ei datblygu yn y sector addysg bellach;
- efallai y bydd angen trefniadau pontio er mwyn i freinwyr allu rheoli cytundebau contract sy'n bodoli'n barod;
- ystyried y posibilrwydd o eithrio cyrsiau breiniol sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr a reoleiddir o'r trefniadau dynodi cyrsiau yn awtomatig a gofynion cynlluniau ffioedd ond caniatáu i gyrsiau o'r fath gael eu dynodi fesul achos;
- beth yw'r ffordd orau o sicrhau y darperir ar gyfer llais cynrychiadol i fyfyrwyr ar draws cyrsiau breiniol mewn achosion lle nad oes gan y sefydliad sydd wedi'i freinio strwythurau cynrychioli neu lle nad yw'r strwythurau hyn yn rhai datblygedig; a
- dylai'r cynllun ffioedd sy'n cael ei ddatblygu gan y breiniwr adlewyrchu anghenion myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau breiniol; a gwerth posibl ei gwneud yn ofynnol i freinwyr ymgynghori â sefydliadau sydd wedi'u breinio wrth ddatblygu eu cynlluniau ffioedd.

## Rheolaeth ar ffioedd a mynediad teg

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai CCAUC, mewn achosion o fethiant parhaus i gydymffurfio â'r terfynau ffioedd, allu tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth mewn perthynas â chynllun a gymeradwywyd?**

Roedd ychydig yn fwy na hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig hwn. Ymhelaethodd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig drwy gynnig y sylwadau a ganlyn:

- byddai tynnu cymeradwyaeth i gynllun sydd wedi'i gymeradwyo yn ôl cyn iddo ddod i ben yn gam difrifol; byddai'n bwysig bod pŵer o'r fath yn cael ei ddefnyddio mewn cyfyngder yn unig a dylai fod yn gymesur â'r broblem a nodwyd;
- dylid gwneud asesiad llawn o'r effaith y byddai tynnu cymeradwyaeth cynllun a gymeradwywyd yn ôl yn ei chael ar ddysgwyr ac ar y gweithlu cyn gwneud penderfyniad o'r fath;
- dylai CCAUC gymryd rhan mewn trafodaethau estynedig gyda sefydliadau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n peri pryder cyn tynnu cymeradwyaeth yn ôl; a
- dylai terfynau ffioedd fod yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a'r Undeb Ewropeaidd yn unig ac ni ddylent gynnwys myfyrwyr o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a myfyrwyr tramor a dylai cynnwys a diben cynlluniau ffioedd gyfateb i'r materion y mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb ariannol amdanynt.

Roedd llawer o'r ymatebwyr o blaid dal i alluogi CCAUC i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd newydd mewn achosion eithafol, ond nid oeddent yn credu bod angen ymestyn y lefelau rheolaeth presennol fel bod modd tynnu cymeradwyaeth cynllun yn ôl cyn iddo ddod i ben. Roedd rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'r term 'terfyn ffioedd'[1] ac roedd llawer o'r ymatebwyr yn cyfeirio at gyfartaledd incwm ffioedd sefydliadau. Awgrymodd un ymatebydd nad oedd tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd yn ôl yn gosb briodol gan nad oedd y gosb yn debygol o gael ei defnyddio oherwydd y byddai'n achosi llawer iawn o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd yn y sector addysg uwch.

**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ehangu rôl CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, er mwyn iddo allu gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd yn unigol ac ar draws sector addysg uwch Cymru?**

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn o blaid y cynnig ac un o'r sylwadau a wnaethpwyd oedd y byddai'n helpu i ddatblygu arferion da yn

[1] Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnig, o dan y fframwaith rheoleiddio newydd, y dylid rhagnodi un uchafswm ffïoedd yn unig yn y rheoliadau a fydd yn cyfateb i'r 'swm uwch' presennol (£9,000 ar hyn o bryd) ac na ddylai'r ffïoedd dysgu a godir gan ddarparwyr a reoleiddir am gyrsiau gradd amser llawn fod yn uwch na'r terfyn penodol a nodir yng nghynllun cymeradwy'r darparwr na bod yn uwch na'r uchafswm a nodir yn y rheoliadau.

ymwneud â gweithgareddau cynlluniau ffioedd a buddsoddiadau. Byddai hefyd yn ategu'r egwyddor hyd braich ar gyfer cyllido addysg uwch. Ymhelaethodd un ymatebydd drwy ddweud y dylai cynnwys cynlluniau ffioedd a thargedau fod yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn unig.

Roedd y rhesymau a roddwyd dros wrthod y cynnig hwn yn cynnwys y canlynol:

- mae'r rheolaethau presennol yn gadarn ac yn briodol ac nid yw'r ddadl dros newid wedi'i hegluro'n  ddigonol yn y ddogfen ymgynghori; ac
- roedd y cynigion fel pe baent yn cynyddu rheolaeth gyhoeddus dros y sector addysg uwch a gallai hyn arwain at oblygiadau yn ymwneud ag annibyniaeth sefydliadau addysg uwch.

**Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y dylid amddiffyn myfyrwyr sydd wedi dechrau eu hastudiaethau gyda darparwr a reoleiddir sydd wedyn yn colli'r gymeradwyaeth i'w gynllun ffioedd neu y gwrthodir cymeradwyo cynllun ffioedd newydd ar ei gyfer?**

Roedd pob un o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid amddiffyn myfyrwyr yn yr amgylchiadau hyn. Gofynnodd ychydig o'r ymatebwyr am eglurhad pellach ynglŷn â sut y byddai'r trefniadau pontio'n gweithio, yn enwedig o ran yr effaith bosibl ar ddyletswyddau a chontractau sy'n parhau rhwng sefydliadau a'u myfyrwyr a phartïon eraill o bosibl (gan gynnwys noddwyr, busnesau, cyflogwyr a phartneriaid) a sut y byddai trefniadau pontio'n cael eu hariannu.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai undeb myfyrwyr sefydliad gael yr holl wybodaeth a chael ei gynnwys yn y camau cyn i'r gymeradwyaeth i gynllun ffioedd sefydliad gael ei thynnu'n ôl neu cyn gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd newydd er mwyn i'r undeb allu bod mewn sefyllfa dda i gefnogi'r myfyrwyr fydd yn cael eu heffeithio a, lle bo angen, i geisio cael cymorth cenedlaethol i'r myfyrwyr.

**Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai'r un gofynion craidd fod yn berthnasol i bob sefydliad a darparwr arall sydd â chynllun a gymeradwywyd?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig y dylai'r un gofynion craidd fod yn berthnasol i bob sefydliad a darparwr arall sydd â chynllun a gymeradwywyd. Roedd y rhesymau a roddwyd dros gefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol: byddai'n creu system deg a chyfartal; byddai'n diogelu buddiannau myfyrwyr; byddai'n rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod cyllid yn cael ei gyfeirio tuag at gyflenwi darpariaeth briodol; a byddai'n hybu cysondeb ym maes addysg uwch yn gyffredinol yng Nghymru.

Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys: pwysigrwydd cymesuredd mewn cysylltiad â dylunio a gweithredu cynlluniau ffioedd ar gyfer darparwyr llai sy'n cael eu rheoleiddio; dylid galluogi sefydliadau i adeiladu ar eu cryfderau

unigol; mae angen i ofynion mewn cynlluniau ffioedd ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion myfyrwyr a darpar fyfyrwyr a gallai’r rhain fod yn wahanol ar gyfer cyrsiau amser llawn a chyrsiau rhan-amser ac ar gyfer gwahanol sefydliadau.

Dadleuodd un o’r ymatebwyr y dylai undeb neu gymdeithas myfyrwyr annibynnol fod yn un o’r gofynion craidd er mwyn sicrhau nad oes perygl o gynrychiolaeth anghyson i fyfyrwyr yn y darparwyr a reoleiddir, yn enwedig gan y gallai’r fframwaith rheoleiddio newydd olygu bod darparwyr ar wahân i’r sefydliadau addysg uwch traddodiadol yn gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd.

Un o’r sylwadau a wnaethpwyd gan y rhai a roddodd ymateb negyddol i’r cwestiwn hwn oedd nad oedd yr ymgynghoriad wedi diffinio’r gofynion craidd yn glir. Roedd pryder hefyd y byddai’r cynnig yn golygu y byddai targedau corfforaethol CCAUC yn cael eu gorfodi ar bob sefydliad.

**Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i CCAUC roi ystyriaeth i lefel arfaethedig y ffi wrth benderfynu a yw ymrwymiadau cynlluniau ffioedd yn ddigonol?**

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â’r cynnig ac yn awgrymu y byddai’n caniatáu i CCAUC fabwysiadu dull cymesur ar gyfer cymeradwyo a gweithredu cynlluniau ffioedd.

Roedd llawer o’r ymatebwyr yn methu â deall pam yr oedd angen newid y trefniadau presennol. Gofynnodd ymatebwyr eraill am eglurhad ynglŷn â sut y bydd lefel y ffioedd yn cael ei hystyried ac roeddent yn credu y dylai CCAUC ymgynghori ynglŷn â’r meini prawf y bydd yn eu defnyddio wrth werthuso a chymeradwyo cynlluniau ffioedd. Holwyd a fyddai CCAUC yn meddu ar yr wybodaeth a’r arbenigedd angenrheidiol i wneud penderfyniadau ynglŷn â lefelau ffioedd.

Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys y canlynol: dylai’r ymrwymiad sy’n cael ei wneud yn y cynlluniau ffioedd fod yn seiliedig ar genhadaeth a gweledigaeth y sefydliad ei hun ac ni ddylai gael ei ragnodi gan CCAUC; a dylid ystyried lefel y ffi ochr yn ochr â ffynonellau incwm eraill y sefydliad.

**Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r swm arfaethedig o £6,000 fel ffi 'trothwy'?**

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â’r swm arfaethedig. Rhoddwyd nifer o resymau dros gefnogi’r swm arfaethedig hwn gan gynnwys y ffaith ei fod yn cyfateb i’r lefel sylfaenol bresennol ar gyfer ffioedd yn Lloegr, a’i fod yn gyson â lefel arfaethedig y cymorth ffioedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr sy’n dilyn cyrsiau gyda darparwyr y mae eu cyrsiau wedi’u dynodi’n benodol ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr.

Dyma rai o’r rhesymau a roddwyd dros beidio â chefnogi’r swm arfaethedig: ni roddwyd eglurhad rhesymedig dros bennu trothwy o £6,000 yn yr ymgynghoriad; byddai angen i sefydliadau addysg uwch Cymru bennu ffioedd o £8,000 o leiaf er mwyn gallu cystadlu â sefydliadau yn Lloegr a rhannau

eraill o’r Deyrnas Unedig; a byddai’r trothwy’n annog rhai darparwyr i ganolbwyntio’u cynnig ar ddarpariaeth sy’n rhad i’w rhedeg / y mae galw mawr amdani gan osgoi unrhyw ymrwymiad i wariant yn y cynllun ffioedd.

Dywedodd un ymatebydd ei bod yn ofynnol ar hyn o bryd i unrhyw sefydliad sy’n codi mwy na £4,000 amlinellu sut y bydd yn gwario cyfran o’r incwm ffioedd ychwanegol hwnnw yn ei gynllun ffioedd. Ychwanegodd yr ymatebydd, er mai’r bwriad yw gorfodi pob darparwr i gwblhau cynllun ffioedd er mwyn bod yn ddarparwr a reoleiddir, ei fod yn teimlo y byddai cael trothwy o £6,000, o’i gymharu â’r trefniadau presennol, yn ffordd lai cadarn o fonitro a chyfeirio gwariant incwm ffioedd ychwanegol.

**Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno ag amrywiaeth y sancsiynau arfaethedig a fydd ar gael i CCAUC ac y dylai CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, allu eu gweithredu yn ôl ei ddisgresiwn?**

Roedd ychydig yn fwy na hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â rhai o’r sancsiynau arfaethedig, os nad y cyfan. Credai nifer o’r ymatebwyr fod yr ystod o sancsiynau a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer CCAUC yn rhesymol, eu bod yn darparu dull penodol a phriodol o annog cydymffurfiad â gofynion y cynllun ffioedd ac y byddent yn helpu i sicrhau bod safon uchel ac enw da’r ddarpariaeth addysg uwch yn cael eu cynnal yng Nghymru. Roedd llawer o’r ymatebwyr yn cytuno hefyd y dylai CCAUC gymhwyso’r sancsiynau hyn yn ôl ei ddisgresiwn, ond ei bod yn bwysig ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd agored a thryloyw.

Dyma rai o’r sylwadau eraill a wnaethpwyd:

- dylai CCAUC gael y dewis o ymestyn ei bwerau cyfarwyddo y tu hwnt i’r cynnig presennol sydd ddim ond yn berthnasol i incwm ffioedd uwchben £6,000;
- o ganlyniad i gyflwyno trefniadau cyllido newydd, bydd y premiymau a ddefnyddiwyd gan CCAUC i hybu mynediad i addysg uwch a blaenoriaethau cyhoeddus priodol eraill a oedd yn ymwneud â chydraddoldeb yn diflannu yn yr amgylchedd cyllido newydd. Byddai’n briodol felly i CCAUC allu cyfarwyddo sefydliadau i wario swm penodol (yn adlewyrchu’r cynllun ffioedd) er mwyn mynd i’r afael â blaenoriaethau strategol yng nghyd-destun mynediad a chydraddoldeb; a
- dylai copïau o unrhyw lythyrau a anfonir at y darparwr a reoleiddir yn nodi camau i’w cymryd neu’n hysbysu ynglŷn â rhybudd gael eu hanfon hefyd i undeb myfyrwyr y sefydliad er mwyn sicrhau bod yr undeb yn gallu diwallu anghenion ei fyfyrwyr a diogelu buddiannau a lles ei fyfyrwyr.

Roedd nifer o’r rhai nad oeddent yn cytuno â’r cynnig heb gael eu hargyhoeddi bod angen yr ystod o sancsiynau arfaethedig ac roeddent yn

teimlo bod y rheolaethau presennol yn ddigonol. Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys y canlynol:

- mae’r cynnig i roi cyfarwyddyd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr a reoleiddir sy’n methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol y cynllun a gymeradwywyd wario swm penodol o’i incwm ffioedd ar weithgareddau sy’n cefnogi cyfle cyfartal i gael mynediad i addysg uwch yn rhoi CCAUC mewn sefyllfa lle mae’n rheoli materion sefydliadau’n uniongyrchol gan ymddangos fel pe bai’n cyfarwyddo mewnbwn yn hytrach nag annog allbwn;
- mae rhoi rhwydd hynt i CCAUC benderfynu a ddylai ddefnyddio sancsiynau ai peidio yn golygu bod perygl o driniaeth anghyson a gallai hynny arwain at her gyfreithiol;
- ni fyddai’r bwriad i droi at waharddebau llys mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio yn adlewyrchu dull partneriaeth;
- mae’r cysyniad o “gyfarwyddiadau gwario” yn ddiweledigaeth a dylid ystyried atebion eraill megis ailddosbarthu adnoddau sy’n bodoli’n barod neu gynyddu gwariant mewn rhai meysydd academaidd craidd;
- gallai cyfarwyddiadau gwario roi CCAUC mewn sefyllfa lle mae’n rheoli materion sefydliad annibynnol yn uniongyrchol; a
- dylid datblygu camau i wneud iawn am beidio â chyflawni targedau mewn partneriaeth, gan fanteisio ar arbenigedd a gwybodaeth leol.

**Cwestiwn 10: Y bwriad yw, pan fydd CCAUC (fel yr awdurdod perthnasol) yn penderfynu tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd, y gall y sefydliad neu'r darparwr dan sylw wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw i banel/person annibynnol. A ydych o'r farn bod y weithdrefn adolygu hon yn ddigonol neu a oes angen trefniadau adolygu neu apelio ychwanegol? Os felly, nodwch sut drefniadau fyddai'n briodol.**

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn credu bod y weithdrefn adolygu’n briodol mewn egwyddor ond awgrymodd nifer bod angen eglurhad pellach ynglŷn â sut y byddai’r broses adolygu’n gweithredu, gan gynnwys sut y byddai’r adolygiad annibynnol yn gweithio a beth fyddai cwmpas a phwerau’r adolygydd/adolygwyr. Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys y canlynol:

- dylai’r broses adolygu fod yn gymesur ac ni ddylai fod yn feichus nac yn gostus i sefydliadau;
- dylai’r weithdrefn ei gwneud yn bosibl ymgynghori ag ombwdsmon ynglŷn â rheoleidd-dra gweithdrefnau;
- mae angen proses ddau gam pan fydd CCAUC yn penderfynu tynnu’n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd, gan gynnwys adolygiad cychwynnol sy’n caniatáu i sylwadau gael eu cyfeirio’n uniongyrchol at CCAUC cyn apêl, os oes angen, i banel annibynnol;

- dylai unrhyw banel adolygu annibynnol gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr allanol; a
- dylai'r bwriad i dynnu cymeradwyaeth yn ôl aros yn fater cyfrinachol rhwng CCAUC, y darparwr addysg uwch a'r panel apêl/unigolyn nes bydd yr apêl wedi'i chwblhau a dylid neilltuo digon o amser ar gyfer apêl.

Dywedodd llawer o ymatebwyr nad oeddent o blaid rhoi pwerau newydd i CCAUC, nac ychwaith o blaid yr ystod o sancsiynau y cynigir y dylent fod ar gael i'r Cyngor, ond eu bod yn cytuno y byddai proses adolygu annibynnol yn hanfodol pe bai'r trefniadau hyn yn cael eu cyflwyno. Awgrymwyd y dylid ymgynghori rhagor ynglŷn â chyfluniad paneli adolygu, y dylai'r paneli gael eu cyflunio mewn ffordd sy'n sensitif i amrywiaeth y sector, ac y dylai sefydliadau gael pob cyfle i wneud achos cryf ar gyfer eu cynlluniau.

**Cwestiwn 11: A ddylai darparwyr a reoleiddir (hy y rheini sydd â chynllun ffioedd a gymeradwywyd) y caiff eu cyrsiau addysg uwch eu dynodi'n awtomatig at ddibenion derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr allu eithrio rhai cyrsiau rhag cael eu dynodi'n awtomatig a'r gofynion rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chynlluniau ffioedd?**

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai rhai cyrsiau gael eu heithrio rhag cael eu dynodi'n awtomatig a'r gofynion rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chynlluniau ffioedd. Rhoddodd yr ymatebwyr enghreifftiau o gyrsiau lle nad yw myfyrwyr yn derbyn cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru gan gynnwys cyrsiau sy'n targedu myfyrwyr tramor yn unig a darpariaeth datblygiad proffesiynol parhaus heb ei hachredu y telir amdani gan gyflogwyr.

Gofynnodd llawer o'r ymatebwyr am eglurhad ynglŷn â sut y byddai'r cynnig hwn yn gweithio yn ymarferol. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid sefydlu proses i benderfynu pa gyrsiau ddylai gael eu heithrio rhag cael eu dynodi'n awtomatig ac y byddai angen i CCAUC gytuno â'r broses hon. Awgrymwyd y dylai darpariaeth o'r fath fod yn rhan o gwmpas y trefniadau arfaethedig ar gyfer sicrhau ansawdd a llywodraethu.

Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn yn amau pa mor deg oedd caniatáu i rai cyrsiau gael eu heithrio rhag gofynion rheoleiddiol ac yn dadlau y gallai rhoi rhyddid o'r fath i sefydliadau danseilio swyddogaeth reoleiddiol gynyddol CCAUC a chreu system reoleiddio ddwy haen ar gyfer darparu cyrsiau addysg uwch.

## Asesu ansawdd

**Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno y dylai dyletswydd CCAUC i wneud darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr a reoleiddir yng Nghymru gynnwys pob cwrs addysg uwch sy'n dod o fewn cwmpas atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig gyda'r sylwadau'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau chwarae teg i bob cwrs a darparwr o ran ansawdd a safonau eu cyrsiau.

Roedd rhywfaint o bryder nad oedd cwmpas y ddyletswydd yn cynnwys modiwlau â chredydau nad ydynt o reidrwydd yn ffurfio cwrs. Er bod yr ymgynghoriad technegol yn darparu eglurhad pellach o'r cynnig y dylai CCAUC gadw dyletswydd statudol i asesu ansawdd, roedd yn amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod rhywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â'r cynnig hwn.

**Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â'r cynnig arfaethedig y dylid gwneud darpariaeth i CCAUC allu cyfarwyddo darparwyr a reoleiddir i roi mynediad i'w safleoedd, eu cofnodion a'u dogfennau at ddibenion asesu ansawdd?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Un o'r sylwadau a wnaethpwyd oedd y dylai ceisiadau fod yn rhesymol ac yn gymesur, ac y dylai gwybodaeth gael ei defnyddio at ddibenion asesu ansawdd yn unig. Roedd lleiafrif yn gweld y cynnig hwn fel gweithdrefn 'arolygu', a fyddai'n darparu gwahaniaeth sylweddol yn y lefelau rheolaeth reoleiddiol i brifysgolion yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Roedd yr ymgynghoriad technegol yn nodi nad dyna fwriad y polisi. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hefyd ei bod yn ddarpariaeth ddiangen gan y byddai sefydliadau'n cydymffurfio â cheisiadau mynediad yn wirfoddol. Roedd sylwadau eraill yn awgrymu y dylid cynnwys hawl i siarad â myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid eraill y sefydliad hefyd.

**Cwestiwn 14: A ydy'r camau a nodwyd ym mharagraff 6.15 yn briodol ac yn ddigonol ar gyfer ymdrin ag achos o ansawdd anfoddhaol? A oes yna unrhyw gamau eraill yr ydych o'r farn y dylai CCAUC allu eu cymryd?**

**Paragraff 6.15:** *Felly, rydym yn cynnig cyflwyno swyddogaethau newydd i CCAUC yn ymwneud â'r camau y gall eu cymryd i fynd i'r afael ag ansawdd anfoddhaol. Rydym yn rhagweld y bydd y Cyngor, os yw'n bendant bod ansawdd yr addysg a ddarperir gan ddarparwr a reoleiddir yn anfoddhaol, yn gwneud rhai neu bob un o'r canlynol:*

- *cyflwyno cynllun gweithredu yn dilyn asesiad ansawdd;*
- *cymryd camau ychwanegol os yw sefydliad yn methu â bodloni'r gofynion ansawdd ee trefnu tîm cymorth, cynnal adolygiadau sicrwydd arbennig ychwanegol;*

- *mynychu ac annerch cyfarfodydd corff llywodraethu / bwrdd rheoli sefydliad neu ddarparwr arall ynghylch unrhyw fater sy'n codi o asesiad ansawdd.*

*Rydym yn cynnig y dylai fod gan CCAUC ddisgresiwn i benderfynu pa ymyrraeth sy'n fwyaf priodol ar sail y dystiolaeth sy'n gysylltiedig ag achosion unigol o ansawdd anfoddhaol.*

Er nad oedd y gwahaniaeth yn fawr iawn, roedd mwy o ymatebwyr yn anghytuno bod y camau a nodwyd ym mharagraff 6.15 yn briodol ac yn ddigonol ac yn cefnogi parhau â phwerau a sancsiynau presennol CCAUC yn hytrach na'r swyddogaethau a nodwyd uchod. Roedd sylwadau eraill yn nodi bod yn rhaid i'r camau fod yn dryloyw, yn rhesymol ac yn gymesur ac y dylent gael eu cymhwyso'n gyson. Rhoddwyd eglurhad hefyd i ddangos bod sefydliadau yn hytrach na CCAUC, fel sy'n cael ei awgrymu yn y ddogfen ymgynghori, yn datblygu cynlluniau gweithredu ar hyn o bryd ar sail argymhellion unrhyw adolygiad neu ymchwiliad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA) neu CCAUC. Teimlid hefyd bod angen trefniadau pontio er mwyn diogelu dysgwyr pe bai CCAUC yn tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd ar sail ansawdd annigonol.

**Cwestiwn 15: A ydych yn credu y dylai fod gofyn i'r person neu bersonau sy'n gofyn am fynediad i safle, cofnodion a dogfennau at ddibenion dyletswydd asesu ansawdd CCAUC gyflwyno cerdyn adnabod ar gais sefydliad neu ddarparwr arall sy'n cael ei asesu?**

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai aseswyr gyflwyno cerdyn adnabod, oherwydd gallai darparu mynediad at gofnodion a dogfennau at ddibenion asesu ansawdd arwain at faterion yn ymwneud â diogelu data. Roedd nifer fach o'r ymatebwyr yn credu nad oedd angen cyflwyno cerdyn adnabod oherwydd eu bod yn anghytuno â'r cynnig i ganiatáu i CCAUC ofyn i sefydliad a reoleiddir ddarparu mynediad i'w safle, cofnodion a dogfennau ac nid oeddent yn credu bod angen deddfu er mwyn galluogi'r mynediad hwn at ddibenion asesu ansawdd.

**Cwestiwn 16: Pe bai CCAUC yn dirymu cynllun ffioedd, a ydy'r camau diogelu ym mharagraff 6.18 yn briodol ac yn ddigonol?**

**Paragraff 6.18**: *Ar hyn o bryd gall yr ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad gan CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd arfaethedig, i wrthod cymeradwyo newid i gynllun sy'n weithredol neu i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd newydd am gyfnod penodedig. Rydym yn cynnig ehangu'r broses adolygu bresennol fel bod penderfyniad i dynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffioedd am fod darparwr a reoleiddir wedi methu â darparu addysg o ansawdd boddhaol, yn cael ei ystyried, yn y lle cyntaf, yn benderfyniad amodol. O dan y cynnig hwn, dylai'r sefydliad neu'r darparwr arall dan sylw allu gofyn am adolygiad gan berson neu banel annibynnol.*

Er nad oedd gwahaniaeth mawr, roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno bod y camau diogelu ym mharagraff 6.18 yn briodol ac yn ddigonol nag a oedd yn anghytuno â’r cwestiwn hwn.

Roedd llawer o’r sylwadau’n ymwneud â’r broses ymarferol o weithredu’r sancsiwn hwn yn hytrach na’r sancsiwn ei hun. Roedd y rhain yn cynnwys y sylw bod yn rhaid i’r broses apeliadau roi digon o amser i ddarparwyr wneud sylwadau a’r sylw y byddai panel adolygu annibynnol yn helpu i sicrhau tegwch a chydraddoldeb yn y broses. Dywedodd dau ymatebydd y dylid ymgysylltu â staff sefydliadau yn ogystal â’r rheolwyr.

Roedd yr ymatebion a oedd yn anghytuno y byddai’r camau’n ddigonol yn gwrthwynebu’r sancsiwn i ddirymu cynllun ffioedd, yn hytrach na digonolrwydd y camau diogelu arfaethedig, er bod un ymatebydd yn amau a oedd y camau diogelu’n ddigon hyblyg. Roedd ymateb arall yn nodi ei bod yn ymddangos nad oedd ond un cam diogelu h.y. bod y penderfyniad cyntaf yn amodol. Roedd diffyg manylder ynglŷn â’r broses i’w dilyn fel pe bai’n peri pryder.

**Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno â'r cynnig bod gofyn i CCAUC gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar y modd y mae wedi arfer ei ddyletswydd mewn perthynas ag asesu ansawdd?**

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr o blaid y cynnig hwn ac yn dweud y byddai’n darparu tryloywder. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu’r cynnig yn dweud mai adroddiadau Adolygiad Sefydliadol ASA yw’r prif ddull o adrodd am ansawdd darpariaeth addysg uwch.

Mynegwyd pryder y gallai’r cynnig hwn arwain at faich gwaith ychwanegol i sefydliadau. Mae’n bosibl bod y cynnig y dylai CCAUC gyflwyno adroddiad blynyddol yn nodi sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswydd ansawdd wedi cael ei gamddeall, a bod yr ymatebwyr yn credu ei fod yn gofyn i sefydliadau gwblhau adroddiadau ynglŷn â’u trefniadau ansawdd unigol.

**Cwestiwn 18: A ydy'r cynigion mewn perthynas â threfniadau breinio yn ymarferol?**

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn cytuno bod modd gweithredu’r cynnig yn ymarferol a’i fod yn gydnaws ag arferion presennol ASA lle mae’r breiniwr yn gyfrifol am sicrhau bod ansawdd y cyrsiau sy’n cael eu darparu gan sefydliad a freiniwyd yn foddhaol. Fodd bynnag, roedd y sylwadau’n nodi y gallai’r cynigion achosi mwy o gymhlethdod i sefydliadau sydd wedi’u breinio a gwrthdaro posibl rhwng gwahanol setiau o ofynion a llinellau atebolrwydd lle mae nifer o drefniadau breinio i’w cael gyda gwahanol fathau o ddarparwyr.

## Sicrwydd ariannol a llywodraethu

### Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i CCAUC ymgynghori ar y Cod Llywodraethu Ariannol a Chorfforaethol arfaethedig?

Roedd llawer iawn o gefnogaeth i'r cynnig hwn ac roedd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylai CCAUC ymgynghori ar y Cod. Er na wnaeth yr ymatebwyr eraill fynegi barn y naill ffordd na'r llall ynglŷn â'r cwestiwn hwn, mynegodd un gefnogaeth gyffredinol i fentrau o'r fath a oedd yn cael eu harwain gan y sector. Teimlid bod y gofyniad i ymgynghori'n gydnaws â'r rhwymedigaethau presennol ac y byddai'n sicrhau bod rhanddeiliaid perthnasol yn cael cyfle i gyfrannu tuag at gynnwys a gweithrediad y Cod a sicrhau ei fod yn cydnabod egwyddorion pwysig fel annibyniaeth y sector, yn enwedig gan y gallai sancsiynau fod yn bellgyrhaeddol. Teimlai dau ymatebydd y dylai fod yn ofynnol i CCAUC ymgynghori a dilyn y broses graffu, mewn cysylltiad â'r Cod ac mewn cysylltiad ag adolygiadau dilynol hefyd.

Pwysleisiodd cynrychiolwyr staff a myfyrwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad fod angen iddynt hwy a phartïon eraill sydd â diddordeb gael eu cynnwys fel ymgyngoreion.

Roedd un ymatebydd yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i CCAUC ymgynghori os oedd deddfwriaeth yn gofyn i CCAUC gymeradwyo Cod, ond nid oedd yn teimlo y dylai CCAUC ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o ddatblygu'r Cod. Credai y dylai'r rheoleiddio ganolbwyntio ar sicrhau bod CCAUC yn fodlon bod pob darparwr addysg uwch wedi mabwysiadu cod derbyniol a phriodol, ac yn defnyddio'r cod hwnnw, a bod modd cyfiawnhau unrhyw wyriad oddi wrth y cod hwnnw. Yn ymarferol, teimlai fod hyn yn golygu y byddai darparwyr addysg uwch yn cefnogi'r cod a sefydlwyd gan Bwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion.

### Cwestiwn 20. (a) A ydych yn cytuno y dylid darparu ar gyfer craffu pellach yn dilyn ymgynghoriad CCAUC ar y Cod drafft?

Roedd cefnogaeth gyffredinol ymhlith yr ymatebwyr i graffu ychwanegol ar y Cod, ac roedd llawer ohonynt yn ffafrio opsiwn 2 (y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno'r fersiwn sydd ganddo o'r Cod ar ôl ymgynghori i Weinidogion Cymru a fydd, yn eu tro, os ydynt yn fodlon â'r Cod drafft, yn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gael ei gymeradwyo). Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen craffu ychwanegol, ond yn teimlo y dylai hyn gael ei gyflawni'n allanol gan ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ystyried y canlyniadau. O'r rhai nad oeddent o blaid, roedd un ymatebydd yn credu na fyddai craffu ychwanegol o unrhyw fudd. Teimlai eraill y gallai craffu o'r fath erydu'r egwyddor hyd braich. Roedd un ymatebydd yn credu nad oedd angen craffu ychwanegol ond yn cefnogi opsiwn 3 (y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno'r fersiwn sydd ganddo o'r Cod ar ôl ymgynghori i'w osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru heb orfod cael cymeradwyaeth) os oedd ei angen.

Teimlai llawer o'r ymatebwyr fod angen ystyried goblygiadau trefniant lle byddai'r Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r Cod gan nodi bod y fframwaith statudol presennol yn pennu nifer o gyfyngiadau o ran y telerau a'r amodau y gellir eu rhoi i CCAUC. Cyfeiriwyd hefyd at oblygiadau posibl y cynnig hwn yng nghyswllt y modd y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu darparwyr[2].

**Cwestiwn 20 (b) Os 'Ydw', pa un o'r opsiynau a nodir ym mharagraff 7.12 sydd orau gennych a pham?**

**7.12:** *Yng ngoleuni rôl reoleiddio fwy CCAUC, rydym o'r farn y dylai fod yn fater i'r Cyngor ei hun i ddatblygu'r manylion gweithredol ac ymgynghori ar y Cod drafft. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd y Cod ar gyfer gweithredu'r fframwaith rheoleiddio newydd, credwn y dylid darparu cam craffu ychwanegol cyn cwblhau'r Cod yn derfynol. Rydym yn ystyried yr opsiynau canlynol:*

• *y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno'r fersiwn sydd ganddo o'r Cod ar ôl ymgynghori i Weinidogion Cymru a fydd, yn eu tro, os ydynt yn fodlon â'r Cod drafft, yn rhoi caniatâd i'w gyhoeddi;*
• *y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno'r fersiwn sydd ganddo o'r Cod ar ôl ymgynghori i Weinidogion Cymru a fydd, yn eu tro, os ydynt yn fodlon â'r Cod drafft, yn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gymeradwyo; neu*
• *y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno'r fersiwn sydd ganddo o'r Cod ar ôl ymgynghori i'w osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru heb orfod cael cymeradwyaeth.*

Fel yr amlinellwyd uchod, o'r rhai a oedd yn teimlo bod angen craffu ychwanegol, opsiwn 2 oedd y trywydd oedd yn cael ei gefnogi fwyaf. Awgrymodd ymatebwyr eraill a oedd o blaid craffu ychwanegol bod angen ystyried hyn ymhellach, hynny yw ystyried ym mha ffurf y dylai ddigwydd, ac roedd nifer nad oeddent yn cefnogi unrhyw un o'r dewisiadau a gynigiwyd neu'n cynnig y dylai'r gwaith craffu gael ei wneud yn allanol.

**Cwestiwn 21 (a) A ydych yn cytuno â chwmpas y Cod arfaethedig ym mharagraff 7.11?**

**7.11:** *Y Cod fydd yn galluogi CCAUC i osod gofynion ar ddarparwyr a reoleiddir yn ogystal â'i gwneud yn bosibl rhoi canllawiau ynghylch llywodraethu a rheolaeth ariannol y bydd gofyn i ddarparwyr roi ystyriaeth iddynt wrth wneud eu gwaith. Nid ydym yn bwriadu rhagnodi cynnwys manwl y Cod yn y ddeddfwriaeth, ond rydym yn rhagweld y bydd y ddeddfwriaeth yn caniatáu i ofynion y Cod gwmpasu'r canlynol:*

---

[2] Mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryder y gallai'r cynigion yn yr ymgynghoriad technegol gael eu gweld fel ymyriad uniongyrchol gan y llywodraeth ac y gallai hynny beri i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ailddosbarthu sefydliadau addysg uwch fel cyrff cyhoeddus i ddibenion cyfrifyddu. Ar hyn o bryd mae sefydliadau addysg uwch yn cael eu dosbarthu gan SYG fel sefydliadau dielw sy'n gwasanaethu aelwydydd (NPISH).

*• sut mae darparwr a reoleiddir yn trefnu ac yn rheoli ei hun, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli ei faterion ariannol (yn y gorffennol ac wrth gynllunio at y dyfodol), sut mae'n paratoi datganiadau ariannol a chyfrifon, a'i gydymffurfiaeth â gofynion archwilio;*
*• yr amgylchiadau lle mae angen cael caniatâd CCAUC cyn gall darparwr a reoleiddir ymgymryd â mathau penodol o drafodion ariannol a nodir yn y Cod; a*
*• darparu gwybodaeth i CCAUC ynghylch rheolaeth, trefniadaeth a chyflwr ariannol y darparwr a reoleiddir.*

O'r rhai hynny a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf yn cytuno'n gyffredinol â'r paramedrau a gynigiwyd uchod ond codwyd nifer o bwyntiau allweddol.

- Rhaid i'r Cod fod yn gymesur â risgiau peidio â chydymffurfio ac ni ddylai roi baich ychwanegol gormodol ar ddarparwyr o gofio bod y sector yn cael ei archwilio'n helaeth yn barod a'i fod wedi'i rwymo gan nifer o offerynnau cydymffurfio. Nid oes angen cod ychwanegol na rhagor o fanylder.
- Byddai'n fuddiol nodi'n glir bod rheoli'r darparwr yn cynnwys cynllunio strategol.
- Dylai trefniadau llywodraethu sefydliadol hefyd nodi ei bod yn ofynnol monitro ac adrodd ynglŷn â holl ganllawiau CCAUC.
- Mae angen ystyried trefniadau llywodraethu sefydliadol pob sefydliad a sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng y darpariaethau a gofynion y Comisiwn Elusennau.
- Mae angen ystyried effaith rheoleiddio ar ddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Mae angen i'r cod ystyried trefniadau sicrwydd ariannol a llywodraethu sy'n bodoli'n barod ar gyfer sefydliadau addysg bellach dynodedig.
- Mae cyfrifon yn rhan o ddatganiadau ariannol felly efallai na fydd angen cyfeirio atynt yng ngeiriad y cwmpas cyntaf.

**Cwestiwn 21(b) A ddylai'r cwmpas fod yr un mor berthnasol i bob sefydliad a darparwr arall sydd â chynllun cymeradwy?**

Roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor hon ac roedd pob un ond un o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn credu y dylai'r cwmpas fod yr un mor berthnasol i bob sefydliad er mwyn sicrhau dull gweithredu teg a chyson. Roedd un ymatebydd, er ei fod yn cytuno'n gyffredinol â'r egwyddor hon, yn teimlo na ddylai sefydliadau sy'n cyflawni eu busnes yn bennaf mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac sy'n cael eu rheoleiddio mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig gael eu rhwymo gan yr un paramedrau â'r darparwyr hynny sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig. Byddai hyn yn sicrhau nad yw darparwyr sy'n gweithredu ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig yn gorfod cydymffurfio â nifer o drefniadau rheoleiddio gwahanol a allai fod yn groes i'w gilydd.

Roedd un ymatebydd yn anghytuno y dylai'r un paramedrau fod yn berthnasol i bob darparwr. Teimlai y dylai paramedrau amrywio'n sylweddol i gydnabod darparwyr a reoleiddir, fel sefydliadau addysg bellach dynodedig, sydd â Memorandwm Ariannol yn barod gyda Llywodraeth Cymru ac sy'n cydymffurfio â gofynion rheolaeth ariannol a llywodraethu dan y trefniant hwn. Credai'r ymatebydd hwn y dylid cadw'r gofynion hyn ac y dylent gael sylw penodol yng nghod CCAUC.

**Cwestiwn 21(c) A ddylid amlinellu'r cwmpas hwn yn y Bil arfaethedig a gadael i CCAUC ddatblygu manylion gweithredol y Cod?**

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r dull hwn gan deimlo ei fod yn darparu fframwaith defnyddiol ac mai CCAUC fyddai yn y sefyllfa orau i ddatblygu manylion y Cod. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig ymgynghori â'r sector wrth wneud hyn. Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r dull gweithredu ond yn teimlo bod y paramedrau'n annigonol. Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r dull gweithredu ac yn teimlo ei fod yn rhoi gormod o ddisgresiwn a rhyddid i CCAUC. O'r rhai hynny na ddywedodd pa ddewis oedd yr un gorau ganddynt, roedd sylwadau llawer ohonynt yn dangos eu bod yn gweld y dull hwn fel un cadarnhaol ar y cyfan.

**Cwestiwn 21(d) Ym mha amgylchiadau, os o gwbl, y dylai fod gofyn i ddarparwyr a reoleiddir gael caniatâd CCAUC i ymgymryd â thrafodion ariannol penodol?**

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr bod angen ystyried y mater hwn yng ngoleuni materion yn ymwneud â dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd rhai'n credu y dylid rhoi sylw i reolaethau o'r fath yn y Cod, yn credu ei bod yn syniad da i ddarparwyr orfod cael caniatâd gan CCAUC mewn rhai amgylchiadau neu'n teimlo bod y rheolaethau presennol yn ddigonol. Teimlai eraill nad oedd gofyn am ganiatâd CCAUC yn briodol. Roedd y prif faterion yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r cyfrifoldeb am risg a'r wybodaeth a'r arbenigedd i'w reoli yn nwylo sefydliadau yn hytrach na CCAUC;
- Mae prifysgolion a darparwyr addysg uwch eraill yn sefydliadau annibynnol, felly dylid caniatáu iddynt ddatblygu eu strategaethau ariannol eu hunain a'u gweithredu heb orfod cyfeirio at y Cyngor Cyllido;
- Mae angen adolygiad i weld a oes angen y cyfyngiadau presennol o hyd yng ngoleuni trefniadau cyllido newydd;
- Er mwyn bod yn agored a sicrhau tryloywder, mae'n bwysig bod darparwyr a reoleiddir yn cyhoeddi unrhyw gynlluniau i wneud trafodion ariannol penodol a bod CCAUC yn camu i mewn os nad yw'n ymddangos bod y rhain er budd y darparwr neu'r sector yn ei gyfanrwydd;
- Mae'n anodd rhagweld sefyllfa lle byddai'r rheolaethau presennol yn annigonol;

- Efallai y byddai'n fwy priodol i ddarparwyr a reoleiddir ofyn am gyngor gan CCAUC er mwyn canfod a allai trafodiad ariannol arwain at anawsterau yn ymwneud â chymeradwyo neu adnewyddu cynllun ffioedd;
- O ran sefydliadau addysg bellach dynodedig, nid oes angen ei gwneud yn ofynnol iddynt gael caniatâd gan CCAUC. Mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd yn barod dan drefniadau gyda Llywodraeth Cymru; a
- Dim ond mewn amgylchiadau eithafol y dylai cael caniatâd gan CCAUC fod yn ofynnol, er enghraifft, lle cymerir benthyciadau a allai effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y darparwyr neu ar eu gallu i ddarparu addysg uwch.

**Cwestiwn 22: A ddylai fod yn ofynnol i CCAUC ymgynghori ar ddatganiad o'i bolisi ymyrraeth a'i gyhoeddi?**

Roedd pob un o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i CCAUC ymgynghori ar ddatganiad o'i bolisi ymyrraeth a'i gyhoeddi. Cytunid yn gyffredinol ei bod yn bwysig i'r polisi fod yn glir ac yn dryloyw a chael ei ddatblygu drwy ymgynghoriad â'r holl bartïon sydd â diddordeb. Roedd y prif bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

- Byddai hyn yn atal her gyfreithiol pe bai unrhyw awgrym bod darparwyr yn cael eu trin yn wahanol;
- Dylai'r polisi ymyrraeth gael ei fynegi yn nhermau rôl CCAUC o ddarparu gweithdrefn er mwyn sicrhau ansawdd uchel a chynaliadwyedd ariannol y sector Cymreig;
- Os bydd y cynigion hyn yn cael eu rhoi ar waith, gallai canlyniadau ymyrryd gael effaith sylweddol ar enw da, cynaliadwyedd ariannol, partneriaeth â sefydliadau eraill, a rhanddeiliaid, a myfyrwyr yn y pen draw. Dylid datblygu polisi clir a thryloyw, gan ymgynghori â'r sector, a dylai'r polisi gael ei gyhoeddi;
- Byddai hyn yn sicrhau bod pob parti'n deall ym mha amgylchiadau y bydd CCAUC yn ymyrryd. Er mwyn ystyried materion na ellir eu gweld ar hyn o bryd, dylai'r polisi ymyrraeth gynnwys cyfarwyddiadau sy'n caniatáu i CCAUC ymyrryd os yw'n credu bod hynny'n briodol;
- Mae'r pŵer i ymyrryd yn un sylweddol a byddai polisi tryloyw'n hanfodol;
- Gallai ymyrryd gael effaith sylweddol ar allu sefydliad i ddarparu addysg uwch ac, mewn achosion eithafol, i barhau mewn busnes, felly dylai CCAUC ymgynghori ar ei bolisi ymyrraeth a'i gyhoeddi; a
- Dylai fod yn ofynnol i CCAUC ymgynghori ar ddatganiad o'i bolisi ymyrraeth a'i gyhoeddi. Mae tryloywder yn hanfodol er mwyn sicrhau bod modd barnu ymyriad yn deg a'i herio os bydd angen.

**Cwestiwn 23: Os yw CCAUC yn bendant bod darparwr a reoleiddir wedi dangos camreolaeth ariannol ddifrifol, p'un a roddodd CCAUC gyfarwyddyd i'r darparwr hwnnw gydymffurfio â gofynion y Cod ai peidio, a ydych yn cytuno y dylai CCAUC gael tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd y darparwr?**

Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r cynigion. Roeddent yn teimlo bod ymestyn pwerau CCAUC yn y cyswllt hwn yn amhriodol neu'n ddiangen. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau y byddai tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd yn ôl heb yr hysbysiad priodol o fwriad yn amhriodol oherwydd y goblygiadau difrifol a fyddai'n dod yn sgil hyn i'r sefydliad addysg uwch a'r sector addysg uwch yng Nghymru.

Roedd llawer yn teimlo y dylid rhoi rhybudd i sefydliadau, hysbysiadau o fwriad, ac y dylid defnyddio cosbau a gyflwynir yn raddol. Teimlai rhai o'r ymatebwyr y gallai fod angen sancsiwn o'r fath mewn achosion eithafol yn enwedig lle'r oedd camreolaeth ariannol ddifrifol wedi cael ei phrofi a bod angen cadw ffydd y cyhoedd. Teimlai un ymatebydd y dylai'r sancsiwn hwn fod ar gael hefyd mewn cysylltiad â methiant yn ymwneud ag ansawdd neu lywodraethu. Roedd y prif sylwadau'n cynnwys y canlynol:

- Dylai CCAUC roi cyfarwyddyd cydymffurfio a thrwy hynny roi cyfle i'r darparwr osgoi anghydfod a / neu herio'r cyfarwyddyd yn gyfreithiol;
- Dylai'r sefydliad bob amser gael rhybudd ac amser i wella cyn i CCAUC allu tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd yn ôl. Dylai fod yn ddyletswydd ar CCAUC i gefnogi sefydliad a'i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw ansawdd anfoddhaol neu gamreolaeth ariannol;
- O ystyried pwerau'r Comisiwn Elusennau yn y cyswllt hwn nid yw'n amlwg pam y mae ymestyn y pŵer fel hyn yn cael ei awgrymu;
- Byddai'n gosod cynsail peryglus lle gallai prifysgolion fod â chynlluniau ffioedd derbyniol sy'n cael eu diddymu oherwydd materion digysylltiad; ac
- Er ein bod yn cytuno â hyn mewn achosion o gamreolaeth ariannol ddifrifol, mae'n hollbwysig bod y cod a'r polisi ymyrraeth yn cael eu datblygu drwy ymgynghori â'r sector, bod undebau myfyrwyr yn cael gwybod beth sy'n digwydd a bod diffiniad clir o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gamreolaeth ariannol ddifrifol.

**Cwestiwn 24: A ydy'r camau diogelu a nodir ym mharagraff 7.16 yn briodol ac yn ddigonol?**

***Paragraff 7.16:*** *O ran ymyraethau CCAUC, rydym yn cynnig y dylid rhoi mesurau diogelu penodol yn eu lle fel a ganlyn:*

*• Yn gyntaf, os yw CCAUC am roi cyfarwyddyd, y bwriad yw bod darparwyr a reoleiddir yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ynghylch pam na ddylid rhoi'r cyfarwyddyd hwnnw. Os yw CCAUC yn dal i gredu y dylid rhoi cyfarwyddyd ar ôl adolygu'r sylwadau a gyflwynwyd, mater i'r Cyngor fydd hynny yn unol â'r*

*Cod cyhoeddedig. Wrth roi cyfarwyddyd, dylai fod yn ofynnol i CCAUC esbonio ei resymau yn ysgrifenedig.*
*• Yn ail, at ddibenion craffu allanol, cynigir y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn amlinellu sut y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â sicrwydd ariannol a llywodraethu yn y flwyddyn flaenorol (gan gynnwys unrhyw achosion lle bu'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio ei bwerau ymyrryd). Y bwriad yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cael gwybod am achosion o gamreoli ariannol a sefydliadol. Byddai hyn yn debyg i ddatganiad sicrwydd presennol y Cyngor.*
*• Yn olaf, rydym yn cynnig ehangu'r broses adolygu bresennol fel bod penderfyniad gan CCAUC i roi cyfarwyddyd, neu benderfyniad i dynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffioedd am fod darparwr a reoleiddir wedi dangos camreolaeth ariannol ddifrifol, yn benderfyniad sy'n cael ei ystyried, yn y lle cyntaf, yn benderfyniad amodol. (Ar hyn o bryd, gall yr ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad gan CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a gyflwynir, i wrthod cymeradwyo newid i gynllun sy'n weithredol neu i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd newydd am gyfnod penodedig). O dan y cynnig hwn, dylai'r sefydliad neu'r darparwr arall dan sylw allu gofyn am adolygiad gan berson neu banel annibynnol.*

Er bod ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (er mai mwyafrif bach ydoedd) yn credu nad oedd y camau diogelu a oedd yn cael eu cynnig mewn cysylltiad ag ymyraethau CCAUC yn briodol ac yn ddigonol. Dyma rai o'r prif bwyntiau a wnaethpwyd:

- Dylai bwriad CCAUC i roi cyfarwyddyd fod yn fater cyfrinachol rhwng CCAUC, y darparwr a'r weithdrefn apeliadau nes bydd unrhyw apêl wedi dod i ben oherwydd yr effaith ar allu sefydliadau i recriwtio myfyrwyr a chodi arian ar gyfer ymchwil a chyfalaf;
- Ni ddylid defnyddio penderfyniad amodol oherwydd gallai hyn gael effaith andwyol ar sefydliad ac achosi ansefydlogrwydd o bosibl. Gallai hefyd amharu ar allu sefydliad i gymryd camau i gywiro sefyllfa cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud;
- Nid oes annibyniaeth wirioneddol yn y camau diogelu sy'n cael eu cynnig. CCAUC fyddai'n gwneud y penderfyniad o hyd ac ni fyddai'n agored i broses graffu allanol na dilysiad annibynnol. Ni ellid ystyried yr adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru'n gam diogelu a gallai fod yn offeryn niweidiol gan y byddai'n seiliedig ar farn CCAUC ac ni fyddai'n ystyried dehongliad y darparwr. Mae'n debygol o fod yn ôl-weithredol hefyd; ac
- Mae angen eglurhad pellach o'r broses adolygu. Roedd un o'r ymatebwyr yn credu'n gryf y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd i hysbysu undebau myfyrwyr.

## Materion trawsbynciol

Cafwyd nifer o sylwadau trawsbynciol ynglŷn â'r system reoleiddio ddiwygiedig arfaethedig. Roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Bydd y cynigion hyn yn cynyddu rheolaeth y llywodraeth dros y sector addysg uwch ac mae'n bosibl y gallent symud tuag at drefniadau arolygu.
- Gallai'r system reoleiddio ddiwygiedig arwain at ddyblygu neu ragor o fiwrocratiaeth a gallai effeithio ar annibyniaeth sefydliadau a'u statws fel sefydliadau dielw sy'n gwasanaethu aelwydydd (NPISH).
- Mae'n bosibl y gallai'r bwriad i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael statws elusennol er mwyn i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr gan Weinidogion Cymru ddyblygu neu achosi gwrthdaro â deddfwriaeth sy'n bodoli'n barod.
- Dylai'r cynigion roi mwy o bwyslais ar gael CCAUC i weithio mewn partneriaeth â'r sector.
- Mae'r ddadl dros ymestyn pwerau CCAUC yn dal yn aneglur gan fod pwerau sylweddol yn bodoli dan y fframwaith statudol presennol.
- Efallai na fydd gan CCAUC y capasiti na'r adnoddau i gyflawni ei ddyletswyddau dan y fframwaith rheoleiddio newydd.
- Mae cwmpas y fframwaith diwygiedig arfaethedig yn gyfyngedig ac nid yw er enghraifft yn darparu unrhyw reolaeth dros gyllideb gyffredinol cymorth i fyfyrwyr nac yn darparu ar gyfer lefel debyg o sicrwydd a diogelwch i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n cael cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru ac sy'n dewis astudio mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.
- Mae nifer o faterion trawsffiniol posibl y mae angen eu datrys megis darparwyr o Gymru'n breinio sefydliadau yn Lloegr, sefydliadau Cymreig sydd ag ail gampws mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, darpariaeth dysgu o bell â myfyrwyr y ddwy ochr i'r ffin a darparwyr sydd wedi'u lleoli yn Lloegr, boed yn ddarparwyr cyhoeddus neu breifat, sy'n dymuno gweithredu yng Nghymru.
- Dylid cynnwys darpariaeth addysg uwch ran-amser yn y fframwaith rheoleiddio diwygiedig cyn gynted ag y bo modd er mwyn osgoi datblygu system ddwy haen.
- Dylid ystyried sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei gynrychioli'n llawn yn y system reoleiddio ddiwygiedig a bod pob un yn cael ei drin yn gyfartal.
- Mae'n bosibl y byddai CCAUC yn gallu rhoi cyllid i sefydliadau ar gyfer gweithgareddau addysg uwch cymwys p'un a yw'r darparwyr yn cael eu 'rheoleiddio' ai peidio, yn unol â'r diffiniad yn y ddogfen ymgynghori (er enghraifft cyllid strategol i gefnogi pynciau cost uchel neu bynciau sy'n bwysig o safbwynt strategol).

- Mae angen eglurhad pellach a rhagor o ymgysylltu ynglŷn â’r cynigion sy’n cael eu hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori.

## Rhestr o'r ymatebwyr

1 Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
2 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
3 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
4 Prifysgol Aberystwyth
5 CCAUC
6 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch
7 Trevor Mayes
8 UNSAIN Cymru
9 Dienw
10 Estyn
11 Higher Education Better Regulation Group
12 Prifysgol Caerdydd
13 NASUWT Cymru
14 Addysg Uwch Cymru
15 Prifysgol Glyndŵr
16 Colegau Cymru
17 Creative Skillset Cymru
18 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
19 Prifysgol Abertawe
20 Prifysgol Bangor
21 UCM Cymru